



Disgrifiad Swydd

Teitl y swydd

Swyddog Cyfathrebu Digidol – Arweinydd
Cyfryngau Cymdeithasol

Yn atebol i

Rheolwr Cyfathrebu Digidol

Pwrpas y swydd

Mae hwn yn gyfle cyffrous i chwarae rhan allweddol yn y tîm Cyfathrebu a Digidol. Gan weithio'n gydweithredol ar draws Chwaraeon Cymru byddwch yn rhoi'r cynllun cyfathrebu digidol ar waith, ac yn cyfrannu ato, er mwyn dangos gwerth chwaraeon a chefnogi rhoi ein strategaeth ar waith. Gan fabwysiadu rôl arweiniol i ddatblygu'r holl allbwn ar gyfryngau cymdeithasol, byddwch yn defnyddio eich sgiliau fel gweithiwr cyfathrebu digidol proffesiynol er mwyn sicrhau bod ein sianelau cyfryngau cymdeithasol cyfredol yn berthnasol i'r cynulleidfaoedd targed yn ogystal â defnyddio eich gwybodaeth am dueddiadau cyfredol i ystyried y sianelau y gallem eu datblygu hefyd i gefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu sefydliadol.

Gan ddefnyddio'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf, byddwch yn gweithio gyda'r Rheolwr Cyfathrebu Digidol i greu platfformau digidol arloesol gyda ffocws penodol ar gyfryngau cymdeithasol a chynllun cynnwys y mae ein staff, ein partneriaid cyfredol a chynulleidfaoedd newydd yn gallu uniaethu ag ef. Byddwch yn defnyddio dadansoddeg a gwybodaeth fel sail i feddwl yn y dyfodol ac yn gweithredu'n rhagweithiol i weithio ar draws y sefydliad er mwyn datblygu cynnwys newydd yn gysylltiedig â strategaeth Chwaraeon Cymru. Byddwch mor gyfforddus yn creu eich cynnwys eich hun ag ydych chi'n gweithio gydag asiantaeth greadigol ddigidol i droi syniadau cymhleth yn straeon sy'n procio'r meddwl.

Byddwch yn gweithio ar draws pob maes busnes er mwyn gwella ansawdd a chysondeb ein rhyngweithio gyda phartneriaid drwy gyfrwng dull digidol ac yn ystyried sut gallwn ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gefnogi gwaith y sector yn y ffordd orau, gan adeiladu ar elfennau fel Calon Chwaraeon Cymru, podlediadau a chynnwys fideo. Byddwch yn helpu staff ar draws y sefydliad i ddeall sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn bositif er mwyn tynnu sylw at waith Chwaraeon Cymru a'n partneriaid, gan ddarparu hyfforddiant a mentora yn barhaus. Byddwch yn gweithio gyda'r swyddogion cyfathrebu corfforaethol i adnabod tueddiadau ar y cyfryngau ac yn ymateb gyda chynnwys gwybodus sy'n procio'r meddwl ar draws ein sianelau cymdeithasol.

Byddwch yn chwarae rhan allweddol mewn adran Gyfathrebu a Digidol brysur a bydd disgwyl i chi gyfrannu at amrywiaeth eang o brosiectau gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu amrywiol, gan gefnogi cydweithwyr pan fo angen.

- Rheoli cynllun cynnwys cyfryngau cymdeithasol sy'n cefnogi rhoi strategaeth Chwaraeon Cymru ar waith ac yn denu cynulleidfaoedd newydd.
- Cefnogi datblygu strategaeth cyfathrebu digidol sy'n adlewyrchu'n fanwl gywir bob maes o'r busnes ac y gellir ei defnyddio ar draws plattfformau amrywiol a denu cynulleidfaoedd newydd at ein sianelau.
- Cyfrifol am ganfod a rheoli adnoddau i fesur effethiolrwydd ein sianelau cyfryngau cymdeithasol a defnyddio dadansoddeg fel sail i feddwl yn y dyfodol.
- Gweithio ar draws y sefydliad yn rhagweithiol yn chwilio am syniadau newydd ar gyfer cynnwys ac yn defnyddio'r syniadau hynny a chreu cynnwys o safon yn fewnol.
- Rheoli asiantaethau creadigol ar brosiectau allweddol Chwaraeon Cymru a sicrhau eu bod yn cyflwyno cynnwys manwl gywir sy'n procio'r meddwl ar gyfryngau cymdeithasol.
- Cefnogi cydweithwyr ar draws y sefydliad i ddefnyddio sianelau cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at waith positif Chwaraeon Cymru a'n partneriaid.
- Cefnogi cyflwyno ymgyrchoedd a digwyddiadau cyfathrebu, gan arwain os yw cyfryngau cymdeithasol yn cael eu nodi fel blaenoriaeth.
- Gweithio gyda'r tîm Dirnadaeth i drosi gwybodaeth a data cymhleth yn straeon a fydd yn annog pobl i feddwl yn wahanol am chwaraeon a Chwaraeon Cymru.
- Creu testun a chynnwys arall ar gyfer gwefan Chwaraeon Cymru a phlattfformau digidol eraill yn ôl yr angen.
- Adnabod cyfleoedd i gydweithio â sefydliadau ac unigolion drwy ein sianelau cyfryngau cymdeithasol.
- Monitro ac adnabod problemau sydd â photensial i achosi niwed sylweddol i enw da ac, os oes angen, arwain ar eu rheoli ar lefel strategol a thactegol.
- Gweithio ar draws y sector i gynnig cefnogaeth a chyngor i weithwyr cyfathrebu proffesiynol a helpu'r sector i ddeall y rôl bwysig y gall cyfathrebu ei chwarae.
- Cysylltu'n agos â chydweithwyr ar draws y sefydliad er mwyn canfod a siapio straeon newyddion positif ar gyfer ein sianelau digidol a rhoi sylw i ymholiadau cyfryngau.
- Cymryd rhan mewn rota ar alwad sy'n cynnig cefnogaeth gyfathrebu y tu allan i oriau.
- Cyflawni cyfrifoldebau sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaeth rhagorol i Chwaraeon Cymru mewn perthynas â'n ddyletswyddau statudol, gan gynnwys Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Cydraddoldeb, Diogelwch Gwybodaeth, Rheoli Risg, yr Iaith Gymraeg, Diogelu, Rheoliadau Ariannol ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Gweithio'n hyblyg gan gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol ac yn berthnasol i'r swydd ac yn briodol i'r raddfa.

Ein Gwerthoedd:

Mae ein dull o weithredu i alluogi i chwaraeon yng Nghymru ffynnu yn esblygu. Rydyn ni wedi ymrwymo i barhau i herio ein hunain i gyflawni'r canlynol:

Dysgu Gyda'n Gilydd

Archwilio, profi ac adolygu yn gyson

Cyflawni Gyda'n Gilydd

Rhannu canlyniadau, meithrin perthnasoedd agored a gonest, darparu adborth cadarn, gwella perfformiad yn gyson

Dathlu Gyda'n Gilydd

Cydnabod ein llwyddiannau a rennir drwy bartneriaid effeithiol

Drwy wneud y canlynol:

Gweithredu'n Ddidwyll

Deall a Pharchu diwylliant a gwerthoedd ein gilydd. Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth

Ychwanegu Gwerth

Sicrhau'r gymysgedd orau bosib o gefnogaeth, her, buddsoddiad, sgiliau ac arbenigedd i gyflawni ein canlyniadau a rennir

Annog Arloesi

Croesawu syniadau a dulliau gweithredu newydd a chefnogi uchelgais a meddwl o'r newydd. Peidio ag ofni teimlo'n anghyfforddus

Manyleb y Person:

	Gofynion Hanfodol	Gofynion Dymunol
Addysg:	Gradd mewn Cyfathrebu, Marchnata neu bwnc cysylltiedig Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus (cymhwyster pellach yn cael ei ffafrio)	
Profiad:	Profiad sylweddol mewn tîm Cyfathrebu neu Farchnata 2 flynedd o brofiad o leiaf mewn rôl cyfathrebu digidol Profiad o reoli cynllun cyfryngau cymdeithasol ar ran sefydliad Profiad o ddatblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddi i gynyddu hyder mewn technoleg ddigidol Gwybodaeth arbenigol am amrywiaeth eang o blatfformau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys dylunio a gweithredu platfformau newydd mewn sefydliad Profiad o ffilmio a golygu fideos i greu cynnwys o ansawdd uchel mewn swydd broffesiynol Profiad o ddefnyddio platfformau CMS amrywiol	Profiad o'r sector chwaraeon Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau newid ymddygiad a rôl cyfathrebu digidol Profiad o weithio gyda chyfryngau'r DU Profiad o reoli asiantaethau creadigol Cysylltiadau yn y diwydiant creadigol digidol

<p>Sgiliau, Agweddau a Galluoedd:</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig ○ Gallu creu cynnwys cryno, difyr a manwl gywir ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ○ Gallu trosi bwriad strategol yn ddarpariaeth weithredol ○ Gallu trin data a gwybodaeth gyfrinachol yn sensitif ○ Gallu trefnu eich gwaith eich hun a chynllunio, amserlennu a blaenoriaethu tasgau'n effeithiol ○ Gallu defnyddio amrywiaeth o systemau CRM ○ Gallu defnyddio amrywiaeth o adnoddau cyfathrebu digidol gan gynnwys facebook, twitter, Instagram ○ Gallu creu cynnwys digidol o ansawdd uchel ar gyfer amrywiaeth o blatfformau ○ Gallu trosi data cymhleth yn straeon cryf ○ Sgiliau TG rhagorol, gan gynnwys gwybodaeth weithredol ragorol am amrywiaeth o blatfformau CMS ○ Sgiliau dylanwadu/trefnu ○ Gallu gweithio o dan bwysau a chadw at ddyddiadau cau ○ Agwedd hyblyg at oriau gwaith 	<ul style="list-style-type: none"> ○ Gallu cyfathrebu yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
<p>Amgylchiadau Arbennig</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Gallu gweithio'n hyblyg gan gynnwys tu allan i oriau swyddfa arferol a chymryd rhan mewn rota ar alwad ○ Gallu teithio yn ôl yr angen ○ Gallu gweithio ar batrwm cylchdro/shifftiau penodol 	